Adroddiad i'r	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod	11 Hydref 2022
Swyddog Arweiniol	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Awdur yr adroddiad	Steve Price
Teitl	Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am y Cyngor yn penodi cadeirydd i'r pwyllgor statudol hwn.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ystyriodd y Cyngor ofynion aelodaeth y pwyllgor statudol hwn yn ystod ei Gyfarfod Blynyddol ym Mai. Ar y pryd nid oedd manylion aelodaeth gwleidyddol yn gyflawn ac felly cytunwyd i ddychwelyd at y Cyngor ym mis Gorffennaf i gadarnhau'r cadeirydd ac aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2.2. Er nad oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf, penodwyd y Cynghorydd Hugh Evans fel Cadeirydd y pwyllgor. Yn anffodus, nid oedd y Cynghorydd Evans yn gallu derbyn y penodiad ac felly rhaid i'r Cyngor ystyried penodiad cadeirydd ar gyfer y pwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn 2022 / 2023 y Cyngor.

4. Manylion yr adroddiad

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

4.1. Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu pa mor ddigonol yw

darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

4.2. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

4.3. Rhaid i'r Cyngor Llawn dan gyfraith, benodi cadeirydd sydd ddim yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Ar gyfer Sir Ddinbych, golyga hyn y bydd y cadeirydd yn aelod o'r pleidiau Annibynnol, Ceidwadol neu Wyrdd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae glynu at ddyletswyddau statudol yn elfen hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost neu ar gyfer gwasanaethau eraill yn sgil cynnwys yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ystyriwyd y gofynion statudol ar gyfer penodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cyngor ym mis Mai a Gorffennaf 2022.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau o'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011